

Canllawiau hunan-ardystio iechyd

Cyflwyniad: Eich iechyd a'ch ffitrwydd i ymarfer

1. Mae'r canllaw hwn yn egluro'r amgylchiadau lle mae angen i chi ddweud wrthym am unrhyw gyflwr(cyflyrau) iechyd perthnasol, felly darllenwch ef yn ofalus.
2. Mae gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) ddyletswydd statudol o dan adrannau 15 a 36C o Ddeddf Deintyddion 1984 i fod yn fodlon bod person mewn iechyd da, yn gorfforol ac yn feddyliol, cyn iddo gael ei gofrestru.
3. Rhoi buddiannau cleifion yn gyntaf yw'r egwyddor gyntaf yn ein Safonau. I wneud hyn, mae angen i chi ystyried eich iechyd a'ch llesiant eich hun.
4. Os gallwch ddangos eich bod yn rheoli eich cyflwr iechyd yn iawn, ni ddylai fod unrhyw effaith ar eich cais i ymuno â'r gofrestr.
5. Er nad ydym yn darparu rhestr gyflawn o gyflyrau iechyd perthnasol, rydym yn darparu rhai enghreifftiau yn y nodiadau canllaw ar y ffurflen gais. Mae angen i ni wybod am unrhyw risg y gallai eich cyflwr iechyd ei beri i ddiogelwch cleifion neu i'ch gallu i wneud eich gwaith yn ddiogel, nid cymaint am y cyflwr ei hun.
6. Gall hyn amrywio o berson i berson a gall hefyd gael ei effeithio gan effaith eich cyflwr, y cymorth y gallech fod yn ei dderbyn, a faint o fewnwelediad sydd gennych i'w effaith ar eich ymarfer.
7. Rydym yn cydnabod y gall eich gallu i weithio'n ddiogel gael ei wella gan y rhwydwaith cymorth sydd gennych, boed hynny'n eich ysgol ddeintyddol/darparwr hyfforddiant, yn y gwaith neu gartref gan y clinigwr(wyr) sy'n eich trin.
8. Drwy gydol y canllaw hwn rydym yn defnyddio'r term 'cyflwr iechyd' i olygu salwch, anaf neu anabledd/nam corfforol neu feddyliol.

Beth mae Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol yn ei ddweud am iechyd cofrestreion?

9. Mae Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) [ar gyfer y Tîm Deintyddol](#) yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n eich llywodraethu fel gweithiwr deintyddol proffesiynol.
10. Mae gan gofrestreion gyfrifoldeb unigol i ymddwyn yn broffesiynol a dilyn yr egwyddorion hyn bob amser.
11. Mae'r safonau'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i gofrestreion ei wneud. Os na fyddwch yn bodloni'r safonau hyn, efallai y cewch eich tynnu oddi ar ein cofrestr ac na fyddwch yn gallu gweithio fel gweithiwr proffesiynol deintyddol.
12. O ran iechyd cofrestreion, mae'r canlynol yn berthnasol:
 - a. Mae Safon 9.2.1 yn nodi "Os ydych chi'n gwybod, neu'n amau, y gallai cleifion fod mewn perygl oherwydd eich iechyd, ymddygiad neu berfformiad proffesiynol, rhaid i chi ymgynghori â chydweithiwr cymwys ar unwaith a dilyn cyngor ar sut i roi buddiannau cleifion yn gyntaf."
 - b. Mae Safon 9.2.2 yn nodi "Rhaid i chi beidio â dibynnu ar eich asesiad eich hun o'r risg rydych chi'n ei pheri i gleifion. Dylech geisio cyngor iechyd galwedigaethol neu gyngor priodol arall cyn gynted â phosibl."

Penderfynu a oes angen i chi ddweud wrthym am eich cyflwr iechyd

13. Fel rhan o'r hunan-ddatganiad yn eich ffurflen gais, mae'n ofynnol i chi ddweud wrthym am unrhyw gyflwr iechyd a allai effeithio neu sydd wedi effeithio ar ddiogelwch cleifion y gallech eu trin a/neu'r rhai rydych chi'n gweithio gyda nhw a/neu'ch gallu i wneud eich swydd yn ddiogel.
14. I'ch helpu i ateb y cwestiwn hwn, dylech ystyried y datganiadau isod. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, os yw unrhyw un o'r datganiadau canlynol, wedi'u darllen ar y cyd â'r diffiniadau, yn berthnasol i chi, mae angen i chi ddweud wrthym am eich cyflwr iechyd:

“Mae gen i, neu mae wedi bod gen i gyflwr(cyflyrau) iechyd a oedd yn golygu bod yn rhaid i mi newid un neu fwy o agweddau ar fy hyfforddiant neu ymarfer deintyddol/DCP, er mwyn fy ngalluogi i weithio'n ddiogel gyda chleifion neu i barhau â'm hyfforddiant.”

Mae 'newid' yn y cyd-destun hwn yn golygu newid a gynghorir neu a ofynnir amdano i'ch ymarfer, hyfforddiant neu astudiaeth. Gallai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): addasiadau i offer, cymorth ychwanegol neu newidiadau i'ch trefniadau gwaith fel llai na gwaith llawn amser. Gallai'r newid fod yn ofynnol neu'n cael ei argymhell gan eich ysgol ddeintyddol/darparwr hyfforddiant, cyflogwr, gwasanaeth iechyd galwedigaethol, meddyg sy'n eich trin, neu efallai eich bod wedi gofyn amdano eich hun.

“Mae gen i, neu mae wedi bod gen i gyflwr(cyflyrau) iechyd sydd wedi arwain at ymyrraeth i, neu seibiannau yn, fy ymarfer neu fy astudiaethau, gan gynnwys ailsefyll unrhyw ran o fy nghws neu asesiadau/arholiadau.”

Mae 'ymyrraeth neu seibiant' yn y cyd-destun hwn yn golygu un neu fwy o seibiannau mewn ymarfer, astudio neu leoliadau clinigol oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol.

I fyfyrwyr, mae'n debygol bod hyn wedi arwain at yr unigolyn yn mynd 'ar ei hôl hi' o gymharu â'i gymheiriaid, neu'n gorfod ail-sefyll unrhyw ran o'i astudiaethau neu hyfforddiant neu asesiad neu arholiadau, oherwydd ei gyflwr iechyd.

I gofrestreion sefydledig, mae'n debygol y bydd hyn wedi arwain at yr unigolyn wedi cymryd seibiant o'i gyflogaeth, neu wedi dod â'i gyflogaeth i ben neu wedi ymryrd ar ei hyfforddiant. Os nad oedd eich cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol yn rheswm dros ymyrraeth neu seibiant, nid oes angen i ni wybod amdano.

“Mae gen i, neu mae wedi bod gen i gyflwr(cyflyrau) iechyd, sydd wedi arwain at osod amodau mewn perthynas â'm hymarfer, hyfforddiant neu gofrestru.”

'Amodau' yn y cyd-destun hwn yw amodau a osodir ar ymarfer yr unigolyn, sy'n caniatáu iddynt ymarfer yn amodol ar rai cyfyngiadau (megis peidio â chyflawni gweithdrefn benodol).

“Mae gen i, neu mae wedi bod gen i gyflwr(cyflyrau) iechyd sydd wedi cael ei ystyried o dan weithdrefnau addasrwydd i ymarfer boed yn y DU neu dramor.”

Mae 'gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer' yn golygu proses i benderfynu a yw addasrwydd unigolyn i ymarfer wedi'i amharu, yn deillio o bryderon ynghylch ei allu i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

I fyfyrwyr, mae hyn yn cynnwys prosesau addasrwydd i ymarfer eich ysgol

ddeintyddol/darparwr hyfforddiant, neu unrhyw ymchwiliad ysgol ddeintyddol/darparwr hyfforddiant arall i effaith eich iechyd neu'ch gallu i gwblhau'r cwrs.

Ar gyfer cofrestreion sefydledig, efallai mai gweithdrefnau oedd y rhain a gynhaliwyd gan eich cyflogwr, gan y GDC neu reoleiddiwr deintyddol dramor .

“Mae gen i, neu mae wedi bod gen i, gyflwr(cyflyrau) iechyd ac rwy'n gwneud cais i adfer i'r gofrestr.”

Mae hyn yn berthnasol i'r rhai a oedd wedi cofrestru gyda'r GDC yn flaenorol ond sydd wedi bod oddi ar y gofrestr am gyfnod o amser ac sydd bellach yn gwneud cais i adfer eu henw.

Os gwnaethoch chi benderfynu gadael y gofrestr i ddechrau oherwydd cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, neu os yw cyflwr wedi dod i'r amlwg yn annibynnol tra rydych chi wedi bod oddi ar y gofrestr, bydd angen i chi ddarparu manylion.

“A oes unrhyw beth am eich iechyd corfforol neu feddyliol a allai eich atal rhag bodloni'r egwyddorion yn ein Safonau?”

Os byddwch yn ateb 'oes' i unrhyw un o'r datganiadau neu gwestiynau uchod, bydd angen i chi ddweud wrthym am y cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol pan fyddwch yn cwblhau'r adran Iechyd a Hunan-ddatganiad o'ch cais.

Unwaith y byddwn wedi cael eich gwybodaeth, byddwn yn penderfynu a yw eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Cyn gwneud hynny, efallai y byddwn yn gwirio rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni (er enghraifft, cadarnhau gyda'ch ysgol ddeintyddol/darparwr hyfforddiant neu gyflogwr nad oes unrhyw ymyrraeth wedi bod i'ch astudiaethau neu ymarfer oherwydd eich iechyd), ac mewn nifer fach o achosion, gofyn am ragor o wybodaeth gennych chi neu drydydd parti (er enghraifft, gwybodaeth gan ymarferydd iechyd galwedigaethol neu feddyg sy'n eich trin).

A ystyrir anabledd yn gyflwr iechyd at ddibenion y datganiad hwn?

15. Y peth pwysig yw a yw eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i weithio'n ddiogel gyda chleifion neu'n effeithio ar eich gallu i gyflawni eich swydd. Mewn llawer o achosion, gall cofrestreion ag anabledd neu gyflwr iechyd ymarfer yn ddiogel.
16. Os, o ganlyniad i unrhyw gyflwr iechyd, rydych chi wedi ateb 'oes' i unrhyw un o'r datganiadau uchod, dylech ddweud wrthym amdano pan fyddwch yn cwblhau'r adran Iechyd a Hunan-ddatganiad o'ch cais, sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer a materion iechyd.

Os byddaf yn dweud wrthyf am gyflwr iechyd, pa wybodaeth arall sydd angen i mi ei hanfon gyda fy nghais?

17. Pan fyddwch chi'n gwneud eich cais, byddwn ni'n gofyn i chi roi manylion am gyflyrau iechyd perthnasol os byddwch chi'n ateb 'oes' i unrhyw un o'r cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd yn yr hunan-ddatganiad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi, ar ôl i ni asesu eich cais, a oes angen rhagor o wybodaeth arnom gennych chi, neu gan drydydd parti, neu a oes angen i ni weld unrhyw ddogfennau. Dyfynnwch eich rhif cyfeirnod GDC ym mhob gohebiaeth.
18. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ffurf adroddiad gan eich ymarferydd iechyd galwedigaethol a/neu unrhyw ymarferydd meddygol arall sy'n eich trin.

Pwy arall y gallai fod angen i mi ddweud wrtho am fy nghyflwr iechyd?

19. Byddwch yn ymwybodol bod gennych ddyletswydd ar wahân i ddweud wrth eich cyflogwr am unrhyw gyflwr iechyd a allai effeithio ar eich gallu i ymarfer. Dylech hefyd drafod y mater gyda'ch darparwr indemniad.

Os oes gen i gyflwr iechyd, a fydd y GDC yn gwrthod fy nghofrestru?

20. Nid yw cael cyflwr iechyd, ynddo'i hun, yn rheswm i ni wrthod rhoi cofrestrriad. Yr hyn y mae gennym gyfrifoldeb i'w benderfynu yw a yw eich iechyd yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Os ydych chi'n sâl, hyd yn oed os yw'r salwch yn ddifrifol, nid yw o reidrwydd yn golygu yr ymyrrir ar eich addasrwydd i ymarfer.
21. Os yw'r cofrestrydd yn fodlon eich bod yn rheoli unrhyw gyflwr iechyd perthnasol yn gywir, drwy gymryd camau a fydd yn osgoi unrhyw risg i gleifion ac a fydd yn sicrhau bod gennych y gallu i gyflawni eich swydd yn ddiogel, ni fydd eich cofrestru'n cael ei wrthod ar sail iechyd.

Gwybodaeth y gellir ei chael gan drydydd parti

22. Pan fyddwch chi'n gwneud cais i gofrestru, mae'r datganiad ar eich cais yn nodi eich bod chi'n cydsynio y gallwn ni gael rhagor o wybodaeth gan unrhyw ymarferydd meddygol sy'n eich trin, os oes angen.

Os ydych chi eisiau i ni rannu gwybodaeth am eich cais gyda thrydydd parti

23. Os ydych chi eisiau i ni rannu gwybodaeth gyda thrydydd parti (gallai hyn fod eich ysgol ddeintyddol/darparwr hyfforddiant, neu gyflogwr) ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd gyda'ch cais i gofrestru, bydd angen i chi roi eich cydsyniad ysgrifenedig i ni.

Cyfrinachedd

24. Rydym yn trin pob mater sy'n ymwneud â'ch iechyd yn gyfrinachol iawn. Dim ond gyda'r rhai sydd ei hangen i ddelio â'ch cais yr ydym yn rhannu gwybodaeth. Fel arfer, swyddog neu weithiwr achos y GDC sy'n delio â'ch cais a'r cofrestrydd (y gwneuthurwr penderfyniadau) fydd hwnnw. Os oes angen cyngor gan gynghorydd iechyd galwedigaethol ar y cofrestrydd¹, bydd rhannau perthnasol eich cais hefyd ar gael i'r cynghorydd.
25. Mae staff y GDC a'n cynghorydd iechyd galwedigaethol dewisol i gyd wedi derbyn hyfforddiant cynhwysfawr ar gadw gwybodaeth gyfrinachol (sy'n cynnwys gwybodaeth am eich iechyd) yn ddiogel.

Gwneud penderfyniad ar eich cais

26. Rydyn ni'n gwybod pa mor bwysig yw penderfyniad ar eich cais i gofrestru i chi, felly rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ar geisiadau cyn gynted â phosibl.
27. Lle gallwn roi cofrestrriad, rydym am roi ein penderfyniad i chi cyn gynted â phosibl. Gallwch chi helpu drwy:
- Rhoi'r holl wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani inni, yn brydlon.
 - Gwneud eich cais mewn da bryd.

¹ Ar hyn o bryd mae'r GDC yn contractio â Sugarman Health & Wellbeing i ddarparu cyngor ar iechyd.
Tudalen o

28. Weithiau mae'n rhaid i ni wneud y penderfyniad anodd o wrthod ceisiadau. Pan mai'r penderfyniad yw i wrthod cais, rydym yn cyhoeddi rheswm manwl dros y penderfyniad, ac mae hawl i apelio. Os bydd hyn yn digwydd i chi, nid oes dim i'ch atal rhag gwneud cais pellach a darparu tystiolaeth bod pryderon a nodwyd yn ein penderfyniad wedi cael sylw llawn.

Pa ffactorau mae'r GDC yn eu hystyried wrth benderfynu a yw fy nghyflwr iechyd yn effeithio ar fy addasrwydd i ymarfer?

29. Os byddwch chi'n dweud wrthym ni am gyflwr iechyd perthnasol, rhaid i ni benderfynu a yw'n effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Rydym yn ystyried y pethau canlynol:
- A yw eich cyflwr iechyd yn effeithio ar eich barn neu'ch gallu i ofalu am gleifion a/neu weithio'n ddiogel?
 - A ydych chi wedi ceisio cyngor a thriniaeth annibynnol ar gyfer eich cyflwr gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol annibynnol sydd â chymwysterau addas?
 - Os yw'n briodol, ydych chi wedi dilyn eu cyngor ar gyfer rheoli'r cyflwr, gan gynnwys cymryd meddyginiaeth ar bresgripsiwn a gwneud newidiadau i'ch ymarfer, fel y gallwch weithio'n ddiogel gyda chleifion?
 - Os yw'n briodol, ydych chi wedi dweud wrth eich cyflogwr neu gyflogwr posibl am eich cyflwr ac am unrhyw addasiadau sydd eu hangen arnoch er mwyn i chi allu gweithio'n ddiogel gyda chleifion?

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn dweud wrthyhch am gyflwr iechyd perthnasol?

30. Rydym yn cydnabod y gall fod yn anodd penderfynu a oes angen i chi ddweud wrthym am gyflwr iechyd perthnasol.
31. Mae'n bwysig eich bod yn ystyried yn ofalus yr wybodaeth yn y canllawiau ac, er nad rhestr gynhwysfawr yw hon, y datganiadau a'r diffiniadau yn "Penderfynu a oes angen i chi ddweud wrthym am eich cyflwr iechyd".
32. Os byddwch, ar ôl darllen y canllawiau, yn penderfynu peidio â dweud wrthym am gyflwr iechyd perthnasol, ac yna rydym yn dysgu am y cyflwr ac yn dod i'r casgliad y gallai'r cyflwr effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer, efallai y byddwch yn ddarostyngedig i'n gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer.
33. Wrth ddod i'r casgliad hwnnw, byddwn yn ystyried y canlynol:
- P'un a roesoch chi esboniad rhesymol dros beidio â dweud wrthym ni.
 - P'un a wnaethoch chi benderfyniad bwriadol i guddio gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch addasrwydd i ymarfer neu a oeddech chi'n ceisio ein camarwain.
 - P'un a oes gennych chi ddealltwriaeth o effaith eich cyflwr, ac a ydych chi'n gwbl ymwybodol o'r effaith bosibl ar eich gallu i weithio'n ddiogel gyda chleifion.